

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Laser Wise Skin & Beauty Clinic,
Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 15 Ionawr
2018

Dyddiad cyhoeddi: 16 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	17
4.	Beth nesaf?	19
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	20
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	22

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Laser Wise Skin and Beauty Clinic, ar 15 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparwyd gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd gan y gwasanaeth gofnodion manwl am y cleifion, a oedd yn dangos hanesion meddygol a bod cydsyniad i driniaeth wedi'i sicrhau ym mhob apwyntiad.
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben
- Roedd angen cyflwyno polisi rheoli heintiau
- Mae'n ofynnol i'r holl staff fynychu hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant
- Mae angen datblygu proses arfarnu staff.

Gwnaethom nodi toriadau rheoleiddiol yn ystod yr arolygiad hwn o ran y datganiad o ddiben, y canllaw i gleifion ac absenoldeb polisi rheoli heintiau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Laser Wise Skin and Beauty wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol gan ei fod yn darparu triniaethau golau pwls dwys a Dosbarth 3B/4 yn 202 Whitchurch Road, Caerdydd, CF14 3NB.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys tri unigolyn, a'r unig weithredwr laser/golau pwls dwys yw'r rheolwr cofrestredig ar hyn o bryd.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau ar gyfer cleifion dros 13 oed gan ddefnyddio'r canlynol:

Lynton Luminette IPL:

- Gwaredu gwallt
- Adfywio'r croen
- Gwaredu gwythiennau arwynebol
- Triniaeth niwed haul
- Gwaredu acne
- Lleihau crychau
- Tynhau'r croen

Laser Lynton Light A* (Alexandrite/Nd: YAG):

- Gwaredu gwallt
- Gwaredu gwythiennau dwfn yn y goes
- Gwaredu ffwng ewinedd.

Laser Lynton Q Plus (Q-Switch):

- Gwaredu tatŵs
- Triniaeth pigmentiad.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod y gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Darparwyd gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod triniaethau.

Gwnaethom ganfod bod angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn cydymffurfio â rheoliadau.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 22 holiadur. Roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, a nododd cleifion fod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ar eu cyfer yn rhagorol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwnaeth fy ffrindiau a'm teulu fy nghyfeirio yma ac mae'r staff bob amser yn gyfeillgar iawn ac yn sicrhau bod gennyf syniad realistig o'r hyn y gall y triniaethau ei ddarparu. Rwy'n hapus iawn gyda'r triniaethau y deuthum yma ar eu cyfer ac felly rwyf wedi trefnu gwasanaethau eraill erbyn hyn."

"Gwasanaeth proffesiynol iawn, amgylchedd glân a chroesawgar, esboniwyd y weithdrefn yn dda iawn ynghyd â'r risgiau, cafwyd cydsyniad, gwybodus iawn. Profiad cadarnhaol iawn."

"Rwyf wedi cael sawl cwrs o driniaeth laser yn Laser Wise. Rwyf yn fodlon iawn ar y canlyniadau a'r gwasanaeth cwsmeriaid. Mae'r holl staff yn hynod broffesiynol, yn ofalgar ac yn dangos consyrn gwirioneddol am fy nhriniaeth. Rwyf

wedi argymell y clinig hwn i lawer o'm ffrindiau. Byddaf yn dychwelyd eto yn y dyfodol."

"Rwyf wedi bod yn dod yma ers dros flwyddyn. Rwyf i'n fwy na hapus gyda fy nhriniaeth. Mae'r staff yn anhygoel, mae popeth yn cael ei esbonio'n llawn i mi. Byddwn yn argymell y clinig hwn yn fawr"

"Mae Laser Wise yn glinig harddwch eithriadol. Bûm i nifer ohonynt ar draws y DU a dyma'r gorau o bell ffordd. Mae'r gwasanaeth yn broffesiynol ac yn gyfeillgar iawn, caiff y triniaethau eu teilwra yn ôl fy anghenion ac fe'm cynghorir am yr opsiynau sy'n fwyaf addas i mi bob tro. Mae'n amgylchedd braf iawn i ddod i gael triniaeth. Mae'r holl staff yn wych! Byddwn i'n argymell Laser Wise i unrhyw un."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Canfuom y gofynnwyd i gleifion lenwi ffurflen hanes meddygol cyn i'r driniaeth ddechrau. Gwelsom fod hyn yn cael ei wirio ymhob apwyntiad dilynol er mwyn sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel.

Urddas a pharch

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais, yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth. Dywedwyd wrthym fod y drws yn cael ei gloi yn ystod triniaeth; darperir tywelion urddas i gleifion yn ôl y galw ac mae cleifion yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain i ddadwisgo os oes angen. Gwnaed hyn er mwyn cynnal urddas cleifion, cyn y driniaeth, yn ystod y driniaeth ac ar ôl y driniaeth.

Roedd ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn ystafell breifat, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol yn gallu cael ei thrafod heb i neb glywed.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Gwnaethom ganfod bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth. Roedd hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb â gweithredwr y laser cyn i driniaeth ddechrau. Dywedwyd wrthym fod y drafodaeth hon yn cynnwys y risgiau, y buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Roedd taflenni gwybodaeth ar gael i gleifion fynd â nhw i ffwrdd ynglŷn â phob triniaeth, ac

roedd gwybodaeth fanwl hefyd ar gael ar wefan y gwasanaeth. Rhoddwyd taflen i gleifion hefyd ac roedd yn ofynnol iddynt ei llofnodi i ddangos eu bod wedi darllen a deall y manylion, a oedd yn cynnwys y risgiau, y buddion, a chyngor cyn triniaeth ac ar ôl triniaeth. Gwnaeth y cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd gytuno eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwelsom fod cydsyniad i driniaeth yn cael ei gasglu oddi wrth gleifion ym mhob apwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i driniaeth ddechrau er mwyn helpu i benderfynu a oedd yn addas ar gyfer triniaeth a thebygolrwydd unrhyw adweithiau negyddol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth. Canfuom fod angen diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Roedd angen diweddariadau gan gynnwys y cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer AGIC, a chynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion.

Roedd datganiad o ddiben ar gael a gwnaethom ganfod bod angen diweddarau hwnnw hefyd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cynnwys nifer, cymwysterau perthnasol a phrofiad yr holl staff a'r dyddiad y cafodd y datganiad o ddiben ei ysgrifennu ac unrhyw ddyddiad adolygu dilynol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a darparu copïau i AGIC.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael apwyntiad ymgynghorol cyn dechrau triniaeth, a oedd yn cynnwys asesiad math o groen. Gwelsom fod canlyniad yr asesiad hwn yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda thriniaethau. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a dogfennau ôl-ofal a ddarparwyd i gleifion a oedd yn cynnwys risgiau a buddion triniaeth. Gwnaethom drafod yr arweiniad a rannwyd ar lafar â chleifion ar y cam ymgynghorol, a oedd hefyd yn cynnwys trafodaeth o'r risgiau a'r buddion.

Canfuom fod nodiadau cleifion unigol manwl ar gael. Roedd y gwasanaeth hefyd yn cynnal cofrestr driniaeth gyffredinol o'r holl driniaethau a ddarparwyd. Gwnaethom argymhell, er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu, bod effeithiau negyddol yn cael eu cofnodi ac os nad oes rhai'n cael eu nodi, bod cofnod yn cael ei wneud o hynny hefyd. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd un gris yn arwain i mewn i'r clinig ac roedd yr holl fannau i gleifion wedi'u lleoli ar un llawr, gan ddarparu mynediad hawdd i unrhyw un â phroblem symudedd.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o ffyrdd o gasglu adborth cleifion am y gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn. Gofynnwyd i'r cleifion am adborth ar lafar yn syth ar ôl triniaeth a chafodd hwn ei gofnodi yn eu cofnodion. Roedd llyfr sylwadau cleifion wedi'i leoli yn y dderbynfa, gan ganiatáu i gleifion nodi a chofnodi eu profiadau i gleifion eraill eu darllen. Roedd holiaduron cleifion ar gael yn y dderbynfa hefyd a gellid rhoi adborth drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol amrywiol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym eu bod yn ystyried yr holl adborth a geir ac yn cymryd camau gweithredu i wella gwasanaethau pan gafodd hynny ei nodi.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu triniaeth i gleifion mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau addas ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, ac roedd y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel.

Roedd angen polisi rheoli heintiau sy'n manylu ar y trefniadau a ddisgrifiwyd ar lafar i'r tîm arolygu.

Gwnaethom argymhell bod angen i'r staff dderbyn hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn y practis, a'r bobl sy'n ymweld.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad. Gwelsom dystiolaeth bod Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Darparwyd ardystiad i ddangos bod y gwiriadau gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad yn gyfredol.

Gwnaethom edrych ar rai o'r trefniadau sydd ar waith o ran diogelwch tân. Roedd asesiadau risg tân ar waith a gwelsom dystiolaeth bod y rhain wedi cael eu hadolygu. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod wedi cynnal hyfforddiant diogelwch tân. Roedd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn. Roedd arwyddion yn nodi'r allanfeydd tân. Dywedwyd wrthym nad oes unrhyw ymarferion tân yn cael eu cynnal, ond bod y staff wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol o'r hyn i'w wneud pe bai argyfwng. Rydym yn awgrymu bod y gwasanaeth yn derbyn cyngor gan swyddog diogelwch tân o ran yr angen am ymarferion tân.

Gwelsom fod gan y staff fynediad at becyn cymorth cyntaf a gwelsom fod y cynnwys o fewn eu dyddiadau dod i ben ac yn briodol i'w defnyddio. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi penodi cynorthwydd cymorth cyntaf; ond nid oedd ei hyfforddiant yn gyfredol. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod hyfforddiant cymorth cyntaf yn cael ei roi yn rheolaidd yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch¹. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod yr adeilad yn weledol lân ac yn daclus. Ni chafodd unrhyw bryderon eu lleisio gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad. Yn ogystal, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno'n gryf bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Disgrifiodd y staff y trefniadau rheoli heintiau yn y gwasanaeth yn fanwl, gan gynnwys tasgau dyddiol ac wythnosol, a threfniadau glanhau rhwng cleifion. Fodd bynnag, ni welsom hyn wedi'i gofnodi o fewn polisi rheoli heintiau. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i roi polisi ar waith.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu gwastraff clinigol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi rheoli heintiau yn cael ei roi ar waith sy'n manylu ar y trefniadau rheoli heintiau ar gyfer y gwasanaeth.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion (ar gyfer rhai triniaethau) dros 13 mlwydd oed.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisiâu diogelu plant ac oedolion ar waith. Mae angen diweddarau'r ddau bolisi i gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer y timau diogelu perthnasol yn y cyngor lleol a hefyd i gynnwys mwy o fanylion am

¹ <http://www.hse.gov.uk/firstaid/>

broses ddiogelu'r gwasanaeth ei hun. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn. Nid oedd modd i ni weld tystysgrifau i ddangos bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Cafodd y rheolwr cofrestredig ei atgoffa y dylid ymgymryd â hyfforddiant diogelu oedolion a phlant. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant diogelu oedolion a phlant yn cael ei gwblhau a bod y polisïau diogelu yn cael eu diweddarau.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth bod y peiriannau laser a golau pwls dwys wedi'u graddnodi'n rheolaidd² a'u bod yn cael eu gwasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr.

Gwelsom fod yna brotocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriannau laser a golau pwls dwys ac roedd y rhain wedi'u goruchwyllo gan ymarferydd meddygol arbenigol a'u hadolygu'n flynyddol.

Gwelsom fod cytundeb ar waith gydag Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau³ ac roedd rheolau lleol⁴ yn manylu ar weithrediad diogel y peiriannau. Roedd y rheolau hyn wedi'u hadolygu yn ddiweddar gan yr Ymgynghorydd Amddiffyn

² Gall graddnodi rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn aros yn gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad ac ansawdd cynnyrch gorau posibl.

³ Mae'r Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau yn rhywun sy'n meddu ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad digonol o faterion sy'n ymwneud â diogelwch laser, ac yn gallu darparu cymorth proffesiynol priodol wrth bennu peryglon, wrth asesu risgiau, ac wrth gynnig unrhyw reolaethau a gweithdrefnau amddiffyn angenrheidiol. Mae llawer o Ymgynghorwyr Amddiffyn rhag Laserau hefyd yn darparu hyfforddiant mewn diogelwch laser.

⁴ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel a bod yn berthnasol i'r gwaith o reoli peiriannau laser, systemau golau pwls dwys a deuodau allyrru golau yn ddiogel o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

rhag Laserau. Gwelsom fod y rhain wedi'u llofnodi gan y staff sy'n gweithredu'r peiriannau laser/golau pwls dwys a oedd yn dangos eu hymwybyddiaeth o'r rheolau hyn a'u cytundeb i'w dilyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Gwybodaeth Greiddiol⁵ a hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys.

Gwelsom fod offer amddiffyn llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr y peiriannau laser a golau pwls dwys. Roedd yr offer amddiffyn llygaid yn ymddangos yn weledol i fod mewn cyflwr da a gwnaeth y rheolwr cofrestredig gadarnhau fod y sbectolau'n cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwydd ar y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn dangos pan oedd y peiriant laser/golau pwls dwys yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau'n cael eu cadw'n ddiogel bob amser. Mae'r allweddi cychwyn ar gyfer y ddau beiriant yn cael eu cadw'n ddiogel pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, gan atal mynediad anawdurdodedig.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau wedi ymweld â'r safle yn ddiweddar ac wedi adolygu'r ddogfen. Ni nodwyd unrhyw faterion i'w gwella gan yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod systemau ar waith yn y clinig i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, roedd y clinig yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal, yn cynnal archwiliadau o gofnodion cleifion i sicrhau cysondeb gwybodaeth ac yn asesu risgiau mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch. Gwnaethom argymhell y dylai canlyniad yr archwiliadau hyn cael ei gofnodi, er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw gamau a nodwyd yn cael eu gweithredu. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

⁵ Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys mewn modd diogel.

Rheoli cofnodion

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel, mewn nodiadau papur ac electronig, er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Canfuom fod strwythur rheoli clir a chefnogol ar waith.

Roedd gan y gwasanaeth broses ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddar'u rheolaidd a'u cyfathrebu i'r staff.

Roedd angen i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno proses arfarnu ar gyfer staff.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n rheoli Laser Wise Skin and Beauty Clinic ac yn berchen arno. Mae'r rheolwr cofrestredig yn cael ei gefnogi gan aelodau ychwanegol o staff sy'n ymgymryd â thriniaethau nad ydynt yn defnyddio'r peiriannau laser/golau pwls dwys.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith a gwelwyd tystiolaeth iddynt i gyd gael eu hadolygu'n ddiweddar. Gwelsom fod y staff wedi llofnodi i ddangos eu bod wedi darllen a deall y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a gwelsom dystiolaeth bod hynny hefyd wedi'i wneud yn dilyn adolygiadau polisi.

Dywedwyd wrthym oherwydd bod y tîm yn cynnwys tri o bobl roedd y cyfathrebu'n fynych ond yn anffurfiol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig a'r staff wrthym fod y cyfathrebu'n dda iawn, ac roedd gan y rheolwr cofrestredig 'bolisi drws agored' felly roedd y staff yn teimlo y gallent drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt yn hawdd.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwynion ar waith yr oedd angen ei ddiweddarau i gynnwys mwy o fanylion. Dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r weithdrefn er mwyn cynnwys amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gŵyn, ac mae'n rhaid diweddarau manylion cyswllt e-bost ar gyfer AGIC. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn. Er nad oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gwynion hyd yn hyn, disgrifiwyd proses briodol ar gyfer cofnodi a rheoli unrhyw gwynion a dderbynnir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi cwynion.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig wrthi'n cynorthwyo staff i ddatblygu eu sgiliau i'w galluogi nhw i ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys. Gwelsom fod hyfforddiant mewn defnyddio'r peiriannau a Gwybodaeth Greiddiol wedi'u cwblhau ar gyfer yr aelodau hyn o staff. Dywedwyd wrthym fod rhaglen hyfforddiant ar waith i gefnogi staff i fod yn weithredwyr laser a golau pwls dwys yn y dyfodol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Canfuom fod gan y rheolwr cofrestredig wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith. Er na fu angen recriwtio staff yn ddiweddar, disgrifiodd y rheolwr cofrestredig broses briodol ar gyfer gwiriadau cyn cyflogaeth.

Dywedwyd wrthym nad yw'r staff yn cael arfarniad ffurfiol o'u perfformiad ar hyn o bryd. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod adolygiadau staff yn cael eu trafod yn aml ond nid oeddent yn cael eu cofnodi. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i ffurfioli'r broses arfarnu ar gyfer staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno proses arfarnu ar gyfer staff.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Laser Wise Skin & Beauty Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 15 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau a darparu copïau i AGIC.	Rheoliad 7 (1) (e) (f) Rheoliad 8 Atodlen 1 (5) (12) Safon 18. Cyfathrebu'n effeithiol	Mae'r polisïau hyn wedi'u diweddarau bellach ac mae ein hadborth blynyddol wedi'u hychwanegu at y polisïau hyn. E-bostiwyd copïau at AGIC.	Suzanne Lazim	pedair wythnos o ddyddiad yr arolygiad
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi rheoli heintiau yn cael ei roi ar waith sy'n	Rheoliad 9 (1) (n)	Rhodddwyd polisi rheoli heintiau ar waith i gadw'r clinig yn lân ac yn daclus a	Suzanne Lazim	pedair wythnos o

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
manylu ar y trefniadau rheoli heintiau ar gyfer y gwasanaeth.	Safon 13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	sichrau bod yr arwynebedd a'r manau triniaeth yn cael eu cadw'n lân bob amser rhwng cleifion. Mae copi o'r polisi hwn wedi cael ei anfon drwy e-bost at AGIC.		ddyddiad yr arolygiad
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sichrau bod hyfforddiant diogelu plant ac oedolion yn cael ei gwblhau a bod y polisiâu diogelu yn cael eu diweddarau.	Rheoliad 16 (1) (a) (b) Rheoliad 20 (2) (a) Safon 11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu plant ac oedolion. Mae'r holl staff wedi pasio'r hyfforddiant angenrheidiol a derbyniwyd y tystysgrifau. Mae'r polisiâu diogelu plant ac oedolion wedi'u diweddarau a'u gwneud yn fanylach. E-bostiwyd y tystysgrifau a'r ddau bolisi at AGIC.	Suzanne Lazim	pedair wythnos o ddyddiad yr arolygiad
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r weithdrefn gwyno.	Rheoliad 24 (1) (4) (a) Safon 23 Ymdrin â chwynion a rheoli	Mae'r weithdrefn gwyno wedi cael ei diweddarau yn unol â hynny ac e-bostiwyd copïau at AGIC.	Suzanne Lazim	pedair wythnos o ddyddiad yr arolygiad

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	digwyddiadau			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno proses arfarnu ar gyfer staff.	Rheoliad 20 (2) (a) Safon 24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu	Mae'r rheolwr cofrestredig Suzanne wedi cyflwyno proses arfarnu flynyddol ar gyfer staff a fydd yn dechrau ar unwaith. E-bostiwyd y broses at AGIC.	Suzanne Lazim	pedair wythnos o ddyddiad arolygiad yr

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):Suzanne Lazim

Swydd: Perchennog y Gwasanaeth / Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad:13 Chwefror 2018